PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 28 TACHWEDD 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Aelodau Annibynnol: , Hugh Thomas, Gavin McArthur a/ac David Price |
| | Y Cynghorwyr Bale, Cowan, Cunnah, Howells, Lay, McGarry, Dianne Rees a/ac Singh |

42 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ian Arundale.

43 : DATGANIADAU BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Howells | Eitem 10.1 | Llywodraethwr Ysgol |

44 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2017 fel cofnod cywir, yn amodol ar ychwanegiad yr Aelodau Annibynnol i'r rhestr o'r rhain a oedd yn bresennol.

Materion yn Codi

Adroddodd Aelod, yn dilyn y cyfarfod ar 18 Medi 2017, y cyfarfu gyda chydweithwyr i drafod prosesau rheoli risg. Derbyniwyd sicrwydd cadarnhaol bod chwant am risg yn cael ei ddefnyddio i ffocysu sylw ar faterion pwysig. Roedd y Strategaeth Rheoli Risg ar hyn o bryd yn cael ei datblygu a chaiff ei hadrodd i gyfarfod Pwyllgor yn y dyfodol yn unol â'r Rhaglen Waith.

45 : MATERION GWEITHREDOL

Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2017, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar lywodraethu a rheoli mewn Gweithrediadau'r Ddinas. Roedd yr adroddiad hefyd i roi sicrwydd ar weithredu'r argymhellion a wnaed gan yr Archwiliad Mewnol yn yr adroddiad ar Gweithrediadau'r Strydoedd Priffyrdd yn 2014.

Croesawodd y Cadeirydd Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas; Gary Brown, Rheolwr Gweithredol – Asedau, Peirianneg a Gweithrediadau; a Matt Wakelam, Pennaeth Seilwaith a Gweithrediadau. Gofynnwyd i'r swyddogion wneud cyflwyniad i restru gwybodaeth a'r heriau a'r blaenoriaethau allweddol sy'n wynebu'r gyfarwyddiaeth. Mae gan y gyfarwyddiaeth dair risg ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor, a hefyd amlinellodd y cyflwyniad y ffordd y caiff y rhain, a Risgiau'r Gyfarwyddiaeth, eu rheoli.

Roedd yr aelodau hefyd wedi gofyn am ddiweddariad ar reoli'r materion a godwyd yn yr adroddiad archwilio ar 'Weithrediadau'r Strydoedd Priffyrdd' yr ymgymerwyd â nhw yn 2014, gan gynnwys adolygiad o'r prosesau a'r gweithdrefnau i'r timau sy'n gyfrifol dros waith priffyrdd adweithiol. Roedd y prif risgiau yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer monitro gweithredwyr er mwyn darparu sicrwydd o oriau sydd wedi'u gweithio, lleoliadau a

fynychwyd a defnydd cerbydau.  Cafodd yr argymhellion eu hatodi i'r adrodd er gwybodaeth.

Mae nifer o adolygiadau archwilio dilynol wedi adnabod gwelliannau o ran rheolaeth a lliniaru risg.

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i holi, wneud sylwadau neu cheisio eglurder ar y wybodaeth a dderbyniwyd.  Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod ffigyrau'r gyllideb weithredol net a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heb gynnwys y cyfraniadau 'unwaith ac am byth' a ail-ddyrannwyd i'r gwasanaeth o danwariant yn y mecanwaith gwydnwch ariannol.
- Ystyriodd yr aelodau fod y dyraniad cyllideb trafnidiaeth Ysgol o £6,058,000 yn sylweddol. Dywedodd y swyddogion fod y gyllideb yn cynnwys costau tacsis o gartref i'r ysgol, cymorth trafnidiaeth i ysgolion Cymraeg/Fydd a thrafnidiaeth i'r rhai sydd mewn addysg brif ffrwd sy'n byw mwy na 3 milltir o'u hysgol dalgylch.  Caiff y gyllideb ei hasesu bob blwyddyn ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu ei fod yn mynd yn anos gwneud arbedion ychwanegol.  Cynllunnir asesiad mwy manwl yn ystod 2018/19.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd y £366,000 a ddyrannwyd i Gynllunio/Rheolaeth Adeiladu yn ddigonol i gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gan yr Adran Gynllunio ffrydiau incwm ac nid yw'r ffigwr £366,000 yn adlewyrchu lefelau staffio presennol. Mae adnoddau digonol gan y gwasanaeth ac mae ganddo incwm sylweddol, sy'n cefnogi refeniw.

- Gofynnodd yr aelodau am sut yr aethpwyd i'r afael ag ôl-groniad asedau seilwaith trafnidiaeth a'r angen i ddyrannu digon o gyllid i gynnal cyflwr sefydlog,  dywedodd y swyddogion fod y cyllid ychwanegol wedi'i ddefnyddio i ddarparu triniaethau newydd gydag oes hwy.  Ystyriodd yr aelodau y bygythiad a grëwyd gan yr ôl-groniad i asedau'r awdurdod.

- Cadarnhaodd y swyddogion fod Gorfodi Parcio Sifil (CPE) yn hunan-gyllidol ac y delir incwm o orfodi parcio mewn cyfrif ar wahân.
- Mae'r gwasanaeth yn cyflawni sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn gan y caiff unrhyw incwm dros ben ei ail-fuddsoddi neu ei ddefnyddio i gefnogi Gorchmynion Rheoli Traffig pharcio i bobl anabl, ayyb.
  Yn nhermau partneriaeth yr awdurdod gyda GLL, gofynnodd Aelodau sut y byddai'r bartneriaeth yn mynd yn ei blaen os na fydd dyheadau'r awdurdod yn ffitio neu'n cael eu cario ymlaen gan GLL.  Dywedwyd wrth aelodau bod cytundeb ar waith, a gaiff ei fonitro trwy dîm monitro contractau y Cyngor, wedi'i ategu gan gyfarfodydd bwrdd rheolaidd. Hyd yn hyn mae GLL wedi gweithredu'n gyson o fewn termau'r cytundeb.  Nododd yr Aelodau fod rheolau rheoli ac archwilio mewnol ar waith er mwyn rhoi sicrwydd.

Diolchodd y Cadeirydd y swyddogion am fod yn bresennol a dymunodd llwyddiant iddynt o ran ateb yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth.

PENDERFYNWYD –Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r cyflwyniad.

Cyllid

46 : DIWEDDARIAD ARIANNOL - CYLLIDEB 2018/19 A MONITRO CYLLIDEB 2017/18 MIS 6

Rhoddwyd adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn cynnwys y newyddion diweddaraf ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

Sefyllfa Monitro Cyllideb – Mis 6 2017/18

Dywedwyd wrth aelodau bod y monitro refeniw mis 6 yn rhagamcanu sefyllfa gytbwys yn erbyn y gyllideb, sef gwelliant o £883,000 o'i gymharu'r sefyllfa yr adroddwyd amdani ym mis 4. Mae'r gwelliant yn adlewyrchu gweithrediadau'r rheolwyr a gyflwynwyd i reoli gwariant yn y flwyddyn gyfredol ynghyd ag arbedion targededig yn ystod y flwydd a nodwyd gan gyfarwyddiaethau a chodiad arall o ran ad-daliadau NDR ar eiddo'r Cyngor.

Mae'r sefyllfa gyffredinol yn adlewyrchu ystod o bwysau gan gynnwys diffygion yn erbyn targedau arbedion cyllidebol mewn cyllidebau cyfarwyddiaethau a gorwariant mewn perthynas â chostau cyllido cyfalaf. Caiff y rhain eu gosod gan arbedion a ragamcanwyd mewn rhai cyllidebau cyfarwyddiaethau eraill, cyllidebau yswiriant, rhyddhau cyllidebau cyfwng, gwarged ar gasglu'r Dreth Gyngor ac ad-daliadau NDR eiddo'r Cyngor.

Mae cyllidebau cyfarwyddiaethau wedi gorwario gan £4.956 miliwn gyda gorwariant wedi'i ragamcanu mewn Gwasanaethau Cymdeithasol, Datblygu Economaidd ac Addysg a Dysgu Gydol Oes. Caiff y rhain eu gosod yn rhannol yn erbyn tanwariant a ragamcenir mewn cyfarwyddiaethau eraill a chan y £3.0 miliwn o gyllideb cyfwng gyffredinol. Nododd yr Aelodau fod y 2017/18 yn lleihau'r cyfwng cyllideb gyffredinol gan £1 miliwn.

Rhoddodd yr adroddiad ragor o fanylion o'r gorwariant o fewn Cyfarwyddiaethau a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Cyllideb 2018/19

Yn dilyn cymeradwyaeth y Strategaeth Gyllidebol gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2017, adolygodd cyfarwyddiaethau cynigion am arbedion a'u diweddaru fel ran o sefydlu sefyllfa gyllidebol gytbwys i'w cymeradwyo gan y Cyngor ym mis Chwefror 2018. Dangosodd yr adroddiad ar Strategaeth Gyllidebol fwlch posibl mewn cyllid o £23.5 miliwn yn 2018/19 a £73.5 miliwn dros y cyfnod at hyd at 2020/21.

Disgwylwyd i arbedion cyfarwyddiaethau fod yn £52 miliwn dros dair blynedd gan gyfrif am y balans drwy dybiaethau eraill, gan gynnwys cynnydd yn y Dreth Gyngor.

Tybiodd y Strategaeth Gyllidebol gostyngiad mewn cyllid o 1% ar gyfer Caerdydd yn 2018/19 yng ngoleuni'r rhybudd cyffredinol gan Lywodraeth Cymru y dylai awdurdodau lleol ddisgwyl setliadau ariannol heriol. Cyhoeddwyd y cyllid ar gyfer 2018/19 ar 10 Hydref 2017. Derbyniodd Caerdydd gynnydd o 0.2%, sy'n cyfateb i £954,000 yn nhermau arian parod ar gyfer 2018/19. Nododd yr aelodau y byddai trosglwyddo cyfrifoldebau ychwanegol yn cyfrif am tua £800,000 o'r cynnydd mewn arian parod. Disgwylir y setliad terfynol yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 18 Rhagfyr 2017.

Yn y tymor canolig, cyhoeddodd y setliad dros dro ostyngiad AEF cyfartalog dangosol o 1.5% ar gyfer 2019/20, gyda'r cafeat bod y gostyngiad hwn yn seiliedig ar lywodraeth y DU yn parhau gyda gwerth £3.5 biliwn o doriadau a gynlluniwyd ar ger 2019/20 na chawsant eu dyrannu eto.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan y Pwyllgor.  Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr aelodau i’r swyddogion roi sylwadau ar gynnydd 12% arfaethedig Cyngor Sir Penfro o ran y Dreth Gyngor .
- Atgoffodd swyddogion yr Aelodau mai’r strategaeth gyllidebol gyfredol i Gaerdydd oedd cynnydd o 3.7% o ran y Dreth Gyngor.
  Dywedodd Aelod fod y setliad dros dro yn well na’r disgwyl.  O ystyried y materion hyn o gwmpas seilwaith a drafodwyd yn ystod yr eitem flaenorol, gofynnwyd i Swyddogion a oeddent wedi ystyried y ffordd orau o ddefnyddio’r sefyllfa ariannol well.  Dywedodd Swyddogion fod arwyddion y byddai setliad 2019 yn waeth na'r disgwyl gan 0.5%.  Mae’r swyddogion yn deall y materion rheoli asedau y cyfeiriwyd atynt o'r blaen ac mae'r Cabinet wedi cytuno i ganolbwyntio ar reoli asedau yn y rhaglen cyfalaf sy'n cael ei thrafod ar hyn o bryd.

- Nododd yr Aelodau orwariant o ran Datblygu Economaidd (Rheoli Gwastraff).  Cadarnhaodd y swyddogion fod y diffyg yn perthyn nid yn unig i bwysau demograffig, ond yn ganlyniad hefyd i ostyngiad yn yr incwm a dderbynnir gan ddeunydd ailgylchadwy.

PENDERFYNWYD – Bod y Pwyllgor yn nodi’r wybodaeth ariannol a ddarperir a’r broses sy’n cael ei mabwysiadu o ran paratoi at gyllideb ar gyfer 2018/19 a’r tymor canolig.

47 : CIPOLWG AR WYDNWCH ARIANNOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad sy’n darparu gwybodaeth a data meincnodi ar wydnwch ariannol y Cyngor.  Roedd yr adroddiad yn cynnwys ‘cipolwg’ o wydnwch ariannol ym Mis 6 yn 2017/18; cymarebau ariannol sy’n deillio o ddatganiad cyfrifon Cymru gyfan fel y cyfrifir gan Lywodraeth Cymru; a’r protocol Arian wrth gefn a glustnodir ar gyfer y Cyngor, gan gynnwys balansau arian wrth gefn ar 31 Mawrth 2017.

Gofynnodd yr Aelodau pa drefniadau sydd ar waith o ran archwilio'r cyllid a gyfrannwyd gan yr awdurdod i'r Fargen Ddinesig.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod Cyd-fwrdd Rhanbarthol y Fargen Ddinesig yn datblygu ei swyddogaeth craffu.  Mae trefn archwilio mewnol yn datblygu a bydd Archwiliad Mewnol yn parhau.

Nododd yr Aelodau fod lefel yr arian wrth gefn a glustnodir wedi codi yn 2016/17.  Gofynnwyd i’r swyddogion a oedd disgwyliad y byddai’r arian wrth gefn a glustnodir yn gostwng yn y blynyddoedd i ddod.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y caiff arian wrth gefn a glustnodir eu cyhoeddi ddwywaith y flwyddyn ac roedd yn glir y dylai fod diben gan arian wrth gefn a glustnodir.  Os na chaiff arian wrth gefn a glustnodir ei ddefnyddio, dylai gael ei ailddyrannu i arian wrth gefn cyffredinol y cyngor.

Cadarnhaodd Swyddogion fod effaith y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei hamlygu fel risg ar y gofrestr risgiau.  Fodd bynnag, roedd angen mwy o eglurder er mwyn caniatáu i effaith ‘Brexit’ ar yr awdurdod gael ei hasesu.

PENDERFYNWYD – Bod:

(1) Y Pwyllgor Archwilio yn nodi’r cipolwg ar wydnwch ariannol ym Mis 6

(2) Yn nodi'r data a gynhyrchir ac a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ar Ddangosyddion Ariannol ar gyfer 2013/14, 2014/15 a 2015/16;

(3) Yn nodi'r Protocol ar Arian wrth Gefn a Glustnodir.

48 : COFRESTR RISG CORFFORAETHOL (CANOL BLWYDDYN)

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y sefyllfa rheoli risg yn Chwarter 2 2017/18. Mae pob Cyfarwyddwr wedi gweithio gyda'r Pencampwr/Pencampwyr Risg i ymgymryd â'r adolygiad rheoli risg yn Chwarter 2. Mae gan y broses Adolygu Rheoli Risg ddwy haen, sef Corfforaethol a Chyfarwyddiaeth, a rhestrwyd y camau gweithredu ar gyfer y ddwy yn chwarter 2 yn yr adroddiad.

Byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i wneud sylwadau ar Bolisi a Strategaeth Corfforaethol Rheoli Risg yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2018. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi y cafodd 15 o 369 o risgiau'r Gyfarwyddiaeth eu cario ymlaen i'r UDRh fel risgiau wedi'u hesgoli. Adolygodd yr UDRh pob risg wedi'i esgoli ar y cyd, yn ogystal â'r effaith bosibl ar y sefydliad a'i amcanion corfforaethol. O'r Adolygiad hwn, ychwanegwyd y risg wedi'i esgoli ar Ansawdd Awyr i'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

Arweiniodd adolygiad yr UDRh o risgiau corfforaethol presennol at un risg 'coch' (Diogelwch y Ddinas), yn cael ei ehangu o ran cwmpas a gostyngiadau o ran sgorau risg dros ben yn ddau risg 'coch' arall (Darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llywodraethu Gwybodaeth).

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Adolygiad yr Uwch rheolwyr yn cynnwys ffocws a thrafodaeth strategol ehangach ar chwant am risg a goddefiant risg i arwain hyd a brys camau gweithredu a thargedau sy'n seiliedig ar risg. Cafodd y dafodaeth ei thanategu gan y Polisi a Strategaeth Gorfforaethol ar Reoli Risg (CRMPS), sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Bydd y CRMPS newydd yn darparu fframwaith y mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau trwyddo ac yn cael eu cefnogi i achosi newid sefydliadol yn y tymor hir a'r tymor canolig. Bydd y CRMPS yn cynnwys chwant am risg a gynllunwyd i alluogi darparu arloesedd a newid effeithiol, trwy drefniadau stiwardio a llywodraethu.

Codwyd pryder o ran cadw e-byst. Dywedodd y swyddogion fod cadw e-byst ynglŷn â storio gwybodaeth yn gywir gymaint ag yr oedd ynglŷn â gwaredu. Mae'r ymagwedd hon yn ymateb uniongyrchol er mwyn mynd i'r afael â'r risg o ran Llywodraethu Gwybodaeth a amlygwyd yn y CRR. Mynegodd yr Aelod bryder fod yr awdurdod yn dibynnu fwyfwy ar gof corfforaethol.

Nododd yr aelodau mai cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad oedd Iechyd a Diogelwch ac Anghydymffurfiaeth risgiau Cynnal a Chadw Offer Adeiladu Statudol. Gofynnodd yr Aelod a oedd bylchau'n parhau yn nghydymffurfiaeth yr awdurdod ac os na châi eu bodloni, byddai'r awdurdod yn cymryd cyfrifoldeb cyfreithiol.
Hefyd cadarnhaodd y swyddogion fod asesiad risg i reoli risgiau tuag at lefel dderbyniol.

PENDERFYNWYD- Bod y Pwyllgor Archwilio yn nodi cynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

49 : ADRODDIAD AR GYNNYDD GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Ar ddechrau'r eitem hon, dywedodd Matthew Coe y byddai'n cael secondiad i Heddlu De Cymru cyn hir. Diolchodd y Pwyllgor a'r swyddogion oedd yn bresennol am yr ysbryd o bartneriaeth roeddent wedi'i fabwysiadu dros y 12 mis diwethaf. Cyflwynodd Matthew Coe Phil Pugh, a fyddai'n ymgymryd â rôl Rheolwr Archwilio.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar gynnydd gan Swyddfa Archwilio Cymru Gwahoddwyd aelodau i godi cwestiynau neu wneud sylwadau ar gynnwys yr adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr SAC yn gyfforddus â lefel yr adnoddau a oedd ar gael i'r swyddogaeth Archwilio Mewnol o fewn yr awdurdod. Dywedodd Matthew Coe nad oedd yn briodol i SAC wneud sylw, gan fod y rhain yn ystyriaethau i Bennaeth yr Adran Gyllid. Dywedodd Pennaeth yr Adran Gyllid fod cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal gydag SAC a chynhaliwyd trafodaethau parthed ffyrdd callach o weithio, i gynnwys Archwilio Mewnol, gan fod SAC yn wynebu llawer o'r un heriau y mae'r awdurdod yn eu hwynebu.

PENDERFYNWYD – Y caiff yr adroddiad ei nodi.

50 : RHEOLI'R TRYSORLYS – ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn nodi perfformiad Rheoli'r Trysorlys a datganiad sefyllfa a pherfformiad ar 31 Hydref 2017.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

Archwiliad Mewnol
51 : ADRODDIAD PENNAETH CYLLID – TÎM ARCHWILIO MEWNOL

*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

*Gwnaed y datganiadau buddiant canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:*

*Y Cynghorydd Howells* *Llywodraethwr Ysgol*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith yr ymgymerwyd ag ef gan y Tîm Archwilio ar 27 Hydref 2017. Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr adroddiad

Cynnydd Archwilio wedi'i restru yn Atodiad A. Rhoddodd yr atodiad ragor o fanylion am berfformiad y tîm gan gyfeirio'n benodol at y Cynllun Archwilio, yr heriau allweddol, camau gweithredu adfer a gwybodaeth a roddir i'r Pwyllgor Archwilio i roi sicrwydd y caiff y rheolau priodol eu defnyddio. Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r prif bwyntiau o'r adroddiad.

Gan gyfeirio at baragraff 12 yn yr adroddiad a'r cynnig i gynnig un cyflogai sy'n gyfwerth ag amser llawn er mwyn arbed arian, gofynnodd yr Aelodau a roddwyd ystyriaeth i ddefnyddio'r arbediad i ddarparu prentisiaethau neu dechnoleg newydd. Dywedodd y Swyddogion y caiff ymagweddau newydd i weithio neu dechnoleg eu hystyried wrth iddynt godi. Nodwyd hefyd bod pedwar archwilydd a oedd y cael eu cefnogi ar hyn o bryd trwy eu hyfforddiant gyda'r Sefydliad Archwilio Mewnol. Mae ymarferion meincnodi wedi dangos bod gan Gaerdydd fwy o archwilwyr yn gymesurol. Gwnaeth Aelod sylw ar gyfyngiadau gwybodaeth meincnodi a bod angen cymryd gofal wrth wneud y feirniadaeth honno

Trafododd aelodau'r ymarfer ymgynghori ar y gyllideb sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Gofynnodd yr Aelodau fod y Cadeirydd yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori ar ran y Pwyllgor er mwyn nodi eu pryder o ran gostyngiadau arfaethedig i adnoddau staffio o fewn Archwilio Mewnol.

PENDERFYNWYD –:

(1) y dylid nodi'r adroddiad;

(2) Mae'r Cadeirydd yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori ar y gyllideb ar ran y Pwyllgor.

## 52 : ADRODDIAD PENNAETH CYLLID – TÎM ARCHWILIO

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn darparu diweddariad ar waith Tîm Ymchwilio'r Adran Archwilio a r 27 Hydref 2017.

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad. Yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon dywedodd Aelod ei fod y bwysig bod pobl yn gwybod bod y materion hyn yn cael eu hymchwilio fel y cânt eu hannog i newid eu hymddygiad.

Hefyd gofynnodd yr Aelodau beth oedd ystyr yr ymadrodd 'twyll trwy gamddefnyddio safle' fel sy'n gynwysedig yn yr adroddiad. Cytunodd y Pennaeth Cyllid i roi rhagor o fanylion ar yr achos hwn i'r Pwyllgor trwy e-bost.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

## 53 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH A'R CYNLLUN GWEITHREDU

Derbyniodd aelodau ddiweddariad ar Raglen Waith y Pwyllgor. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r gweithdy hunanasesu blynyddol yn cael ei gynnal cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 30 Ionawr 2018. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai CIPFA yn rhoi arweiniad wedi'i ddiweddaru ym mis Rhagfyr ac y bydd y gweithdy yn ceisio defnyddio hynny fel canolbwynt i'r gweithdy. Fodd bynnag, os bydd oedi o ran y cyhoeddi, caiff hyn ei adolygu. Cytunodd y swyddog i roi gwybodaeth ymhell cyn y Gweithdy. Gofynnodd Aelod a roddwyd ystyriaeth i hyfforddiant allanol a datblygiad ar gyfer yr Aelodau. Dywedodd Pennaeth yr Adran Gyllid y cysylltwyd ag ef a'r Cadeirydd gyda'r syniad o ffurfio Grŵp Cenedlaethol o Gadeiryddion y Pwyllgor Archwilio, a gâi ei hwyluso gan Grŵp Prif

Archwilwyr Cymru. Byddi hyn yn canolbwyntio ar gyfnewid arfer da a hyfforddiant. Dangosodd Pennaeth yr Adran Gyllid ei fod yn gobeithio adrodd ar ddatblygiadau yn y Flwyddyn Newydd.

PENDERFYNWYD – nodi’r Diweddariad ar y Cynllun Gwaith a’r Cynllun Gweithredu.

54 : MATERION BRYS

Ni adroddwyd ar unrhyw faterion brys.

55 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: 30 IONAWR 2017

Amserlennir y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 30 Ionawr 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified